**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

—

**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Jayne Bryant AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Llywodraeth Cymru

11 Tachwedd 2024

Annwyl Jayne,

Y Comisiwn Asedau Cymunedol

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 24 Medi, ynghylch y Comisiwn Asedau Cymunedol. Gwnaethom hefyd drafod y mater hwn â chi yn ystod y sesiwn graffu weinidogol a gynhaliwyd ar 10 Hydref.

Yn ystod y sesiwn honno, gwnaethoch egluro mai grŵp gorchwyl a gorffen, yn hytrach na chomisiwn, fydd yn datblygu'r gwaith hwn. Cytunodd yr Aelodau y dylwn ysgrifennu atoch i fynegi ein barn gref na ddylai'r newid hwn o ran y dull gweithredu arwain at gwtogi cwmpas y gwaith sy'n cael ei wneud, na'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r gwaith. Cawsom ddiweddariad ym mis Tachwedd 2023 gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd, a nododd mai comisiwn fyddai'n cymryd camau gweithredu mewn perthynas â llawer o'r argymhellion a wnaed gennym yn ein hadroddiad ar asedau cymunedol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau y bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn rhoi'r argymhellion hyn ar waith.

Yn ogystal, pe na bai'r grŵp gorchwyl a gorffen yn rhoi ein hargymhellion ar waith, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar i gael diweddariad i'r perwyl hwnnw hefyd.

Roedd argymhelliad 7 yn ein hadroddiad yn datgan ein barn y dylid adolygu'r astudiaethau achos a gafodd eu darparu gan Ystadau Cymru yn achlysurol, a hynny er mwyn sicrhau bod enghreifftiau diweddar o brosiectau ar gael, fel y gall eraill ddysgu gwersi yn eu cylch. Mae'r diweddariad a gafwyd ym mis Tachwedd 2023 yn cyfeirio at gylchlythyr a chynhadledd flynyddol Ystadau Cymru. Serch hynny, rwy'n nodi nad yw'r astudiaethau achos a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru wedi'u diweddaru ers 2019. Gallai fod yn ddefnyddiol pe bai'r prosiectau y cyfeiriwyd atynt yn y diweddariad ym mis Tachwedd 2023, ynghyd ag unrhyw enghreifftiau dilynol, yn cael eu cyhoeddi ar y wefan.

Mae'r diweddariad ym mis Tachwedd yn nodi bod y gwaith o sefydlu rhwydwaith cymheiriaid ar gyfer trosglwyddo asedau, yn unol ag argymhelliad 8 yn ein hadroddiad, yn mynd rhagddo, ac yn dweud

bod y gwaith hwn yn rhan o adolygiad ehangach o Ystadau Cymru. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar i gael diweddariad am y broses o sefydlu rhwydwaith o'r fath.

Yn gywir

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

John.Griffiths@senedd.cymru

20 Tachwedd 2024

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Tachwedd ynghylch y Comisiwn Asedau Cymunedol a'r sesiwn graffu weinidogol a gynhaliwyd ar 10 Hydref.

Hoffwn gadarnhau nad yw'r dull presennol wedi arwain at unrhyw ostyngiad yng nghwmpas y gwaith sy'n cael ei wneud. Mae argymhellion a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, fel y'u dogfennir gan yr ymateb ffurfiol a anfonwyd atoch ym mis Tachwedd 2023, yn cael eu datblygu yn weithredol gan y grŵp gorchwyl a gorffen. Er gwybodaeth ichi, rwyf wedi cynnwys dolen at y cylch gorchwyl: Cylch gorchwyl: Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Asedau Cymunedol: Ystadau Cymru | LLYW.CYMRU

O ran yr argymhellion i adolygu'r canllawiau, rwy'n falch o'ch hysbysu y bydd y rhain yn cael sylw yn dilyn adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen, ac y byddant yn cael eu hymgorffori yn y canllawiau diweddaraf yn unol â'r adroddiad a chyfarwyddebau Gweinidogol. Bydd y dull hwn yn golygu y bydd cynrychiolwyr grwpiau cymunedol wedi cael cyfle drwy weithdai'r Comisiwn i gyfrannu at ddatblygu'r canllawiau diweddaraf.

Mae swyddogion yn cydnabod pwysigrwydd cael yr astudiaethau achos diweddaraf ar gael i'r cyhoedd gyfeirio atynt. Mae cyhoeddi astudiaethau achos ar LLYW.CYMRU yn wir yn gam adeiladol ymlaen. Mae swyddogion eisoes yn cydlynu gyda thîm cyfathrebu Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr astudiaethau achos diweddaraf ar gael yn rhwydd ar wefan Ystadau Cymru.

O ran yr argymhelliad i sefydlu Rhwydwaith Cymheiriaid Trosglwyddo Asedau, mae Ystadau Cymru wedi ffurfio grŵp thematig Asedau Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol ac mae aelodau wrthi'n datblygu cylch gorchwyl. Bydd y rhain yn cynnwys ffyrdd o rannu profiad cymheiriaid ac arferion gorau.

Mae eich adborth yn werthfawr, a nod swyddogion yw ei ymgorffori yn ein gwaith parhaus.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government